

# Ysgol Gynradd Gymraeg Tregeles

*Teulu Hapus a Charedig*
*(A happy and kind family)*

Teulu hapus a charedig

Ysgol
Gymraeg
Tregeles

# Ysgol Gynradd Gymraeg Tregeles

## Rhagair: Lianne Vaughan, Pennaeth

Mae ein hysgol yn gymuned deuluol lewyrchus, a'n nod yw bod yn fan lle mae plant yn dysgu a theuluoedd yn ymgasglu gan wybod bod llesiant pawb yn flaenllaw yn ein holl ddysgu.

### Gweledigaeth

Gyda'n gilydd mae ein plant, staff, rhieni, llywodraethwyr, a'r gymuned i gyd yn rhan o Deulu Tregeles. Teulu a fydd yn tyfu, yn cynnal atgofion hapus, ac yn darparu sylfaen gref ar gyfer datblygiad a thwf wrth i'n plant dyfu i fod yn unigolion unigryw.

### Dyfodol cyffrous

Mae ein haddysgu yn ysgogol a chreadigol, gan annog ein plant i barhau â'u haddysg y tu allan i'r ysgol, a dod yn ddysgwyr gydol oes. Rydym am danio diddordeb yn y byd o'u cwmpas, ac i'r diddordeb hwnnw arwain at fywydau boddhaus a llawn dychymyg. Dylai dysgu fod yn hwyl.

### Cefnogaeth fugeiliol gref

Rydym yn ymfalchïo mewn cynnig cefnogaeth fugeiliol gref mewn amgylchedd dysgu diogel lle mae pob plentyn ac oedolyn yn cael ei werthfawrogi a'i annog i gyflawni ei lawn botensial. Ein nod yw paratoi pob plentyn ar gyfer heriau a newidiadau'r dyfodol er mwyn iddynt allu cyrraedd y safonau uchaf yn eu datblygiad personol, gan feithrin gwydnwch ac annog dyfalbarhad.

### Partneriaeth â rhieni

Dywed ein rhieni:

"Mae Ysgol Gymraeg Tregeles yn ysgol hapus a chroesawgar gydag awyrgylch deuluol a staff gofalgar sy'n rhoi llesiant y disgyblion yn gyntaf. Ers i'n mab ddechrau yn yr ysgol ym mis Ionawr, rydym eisoes wedi ei weld yn datblygu a gwneud cynnydd ac rydym wrth ein bodd i fod yn rhan o deulu Tregeles."

Rhys a Naomi Griffiths.

"Fy mab oedd y myfyriwr cyntaf i ddechrau yn YGG Tregeles ac fel rhieni, rydym mor falch ein bod wedi dewis ei gofrestru yno. O'r diwrnod cyntaf, mae wedi cael ei drin â charedigrwydd a sylw ac wedi cael ei feithrin drwy'r amser. Gan ddod o deulu di-Gymraeg, mae wedi datblygu'n aruthrol ac mae hynny wedi ein hannog ni i ddechrau dysgu hefyd. Byddem yn argymell yr ysgol hyfryd hon yn fawr gyda staff mor anhygoel a lle hyfryd i ddysgu a thyfu."

Anneka a Dan Santillo

### Dewch i edrych o gwmpas!

Rwy'n gobeithio y bydd ein prosbectws yn rhoi cipolwg a dealltwriaeth i chi o'n nod o ddarparu cwricwlwm cyffrous sy'n ysgogi meddyliau ifanc ac yn ymgorffori dysgu awyr agored. Byddem yn falch iawn o'ch croesawu i'n hysgol. Ffoniwch swyddfa'r ysgol ar 01792 966655 i drefnu ymweliad a gweld pam fod ein hysgol mor arbennig.









# Diwrnod ysgol: ymgartrefu a'n cwricwlwm

## Oriau'r ysgol

Mae ein diwrnod ysgol yn dechrau am 9.00yb a'r diwrnod ysgol yn gorffen am 3.15yp. Mae sesiwn feithrin y bore yn dechrau am 9.00yb ac yn gorffen am 11.30yb, ac mae sesiwn y prynhawn yn dechrau am 12.45yp ac yn gorffen am 3.15yp.

## Clwb Brecwast

Wrth i'r ysgol dyfu, byddwn yn darparu Clwb Brecwast bob bore a fydd yn rhad ac am ddim.

## Gwisg ysgol

Ein gwisg yw trowsus, tiwnig neu sgert ddu, crys polo coch, siwmper, hwdi neu gardigan werdd jâd a gellir gwisgo siorts du neu ffrog gingham werdd yn yr haf. Gellir prynu eitemau o ddillad gyda logo ein hysgol arnynt gan Sportec.

## Prydau a byrbrydau ysgol

Darperir prydau ysgol maethlon i blant o'r dosbarth Derbyn ymlaen.

### Prydau ysgol am ddim

Darperir prydau Ysgol am ddim i bob plentyn oed cynradd. Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno hyn fesul cam gyda'r nod o ddarparu prydau ysgol am ddim i bob plentyn oed cynradd.

## Cwricwlwm creadigol: sylfeini llwyddiant

Mae gennym gwricwlwm cyffrous sydd wedi ei ddatblygu i ddysgu ein plant sut i fyw bywydau pwrpasol. Rydym yn cymysgu profiadau bywyd go iawn gyda dysgu academaidd gan roi addysg gytbwys ac ystyrlon i'n plant. Rydym yn ymgymryd â dysgu yn yr awyr agored ac mae ein plant iau yn cael eu hannog i ddysgu trwy chwarae. Mae ein cwricwlwm yn sicrhau bod plant yn ymwybodol o'u hardal leol, eu treftadaeth a'u diwylliant ac rydym yn ymdrechu i gyflwyno sbectrwm cynhwysol o wersi sy'n cwrdd ag anghenion ein holl ddysgwyr. Rydym yn creu ardaloedd dysgu awyr agored o safon uchel gyda'r nod o ddatblygu ardal Ysgol Goedwig a fydd yn cynnwys twnnel helyg.

### Cerddoriaeth

Mae cerddoriaeth yn ganolog i'n harlwy dysgu ac edrychwn ymlaen at gystadlu yn yr Eisteddfod. Mae gennym ganwr Cymraeg proffesiynol adnabyddus fel rhan o'n Tîm Meithrin ac rydym yn cymryd rhan weithredol mewn cyngherddau ac yn cefnogi ein plant i berfformio.

### Y Meithrin

Yn ystod eu diwrnod yn yr adran feithrin, bydd plant yn mwynhau ystod eang o weithgareddau. Mae Garddio, Gemau, Chwarae Rôl, Peintio, Coginio, Chwarae Dŵr, Beicio, Canu a Chwarae Tywod i gyd wedi'u cynnwys yn ein hamserlen.







# **Cwricwlwm cyfoethog:** gwibdeithiau, dysgu yn yr awyr agored, addysg gorfforol a chlybiau

## Gwibdeithiau


Bydd plant yn cael cyfleoedd helaeth i fwynhau ymweliadau a fydd yn cefnogi eu dysgu.

- Parc lleol,
- Ymweld â Siôn Corn,
- Fferm Wiggleys
- Parc Margam

## Chwaraeon, Addysg Gorfforol a Dysgu yn yr Awyr Agored

Yn y dyfodol, byddwn yn cynnal amrywiaeth o dimau a chlybiau chwaraeon fydd yn cefnogi ac yn annog ein plant i fyw bywydau iach a chytbwys.







# Welcome to Ysgol Gynradd Gymraeg Tregeles

## Foreword: Lianne Vaughan, Headteacher

Our school is a thriving family-based community, and our aim is to be a place where children learn and families gather knowing that everyone's wellbeing is at the forefront of all our learning.

### Vision

Together our children, staff, parents, governors, and community are all part of the Teulu Tregeles (Tregeles Family). A family that will grow, host happy memories, and provide a strong foundation for development and growth as our children grow to be unique individuals.

### Exciting future

Our teaching is stimulating and creative, encouraging our children to continue their education outside of school, and become lifelong learners. We want to ignite an interest in the world around them, and for that interest to lead to fulfilling and imaginative lives. Learning should be fun.

### Strong pastoral support

We take a pride in offering strong pastoral support in a safe learning environment where every child and adult is valued and encouraged to achieve their full potential. We aim to prepare every child for the challenge and changes of the future so they can achieve the highest standards in their personal development, building resilience and encouraging perseverance.

### Parent partnership

Our parents say:

"Ysgol Gymraeg Tregeles is a happy and welcoming school with a family orientated atmosphere and caring staff who put the well-being of the pupils first. Since our son began at the school in January, we have already seen him develop and progress and we are thrilled to be part of the Tregeles family."

*Ryhs and Naomi Griffiths.*

### Come and look around!

I hope that our prospectus gives you an insight and understanding of our aim to provide an exciting curriculum that stimulates young minds and incorporates outdoor learning. We would be delighted to welcome you to our school. Please call the school office on 01792 966655 to arrange a visit and see why our school is so special.







## School hours

Our school day starts at 9.00am and the school day ends at 3.15pm. Morning nursery starts at 9.00am and finishes at 11.30am, the afternoon session begins at 12.45pm and ends at 3.15pm.

## Breakfast Club

In the future, as the school grows we will be offering a free breakfast club.

## Uniform

Our uniform is a black trousers, tunic or skirt, a red polo short, jade green jumper, hoody or cardigan and black shorts or green gingham dress can be worn in summer. Items of clothing with our school logo on can be purchased from Sportec.

## School meals and snacks

Nutritious school meals are provided to children from Reception class onwards.

### Free school meals

Free school meals for all primary aged children.

## Creative curriculum: foundations for success

We have an exciting curriculum which has been developed to teach our children how to lead purposeful lives. We mix real-life experiences with academic learning giving our children a balanced and meaningful education. We embrace outdoor-learning and our younger children are encouraged to learn through play. Our curriculum ensures that children are aware of their local area, heritage and culture and we endeavour to deliver an inclusive spectrum of lessons that meet the needs of all our leaners. We are creating high quality outdoor learning areas with the aim of developing a Forest Schools area which will include a willow tunnel.

### Music

Music is central to our learning offering and we look forward to competing in the Eisteddfod in the near future. We have a well-known professional Welsh singer as part of our Nursery Team and we actively participate in concerts and support our children to perform.









***Nursery***

*During their day at nursery, children will enjoy a wide range of activities. Gardening, Games, Role Play, Painting, Cooking, Water Play, Cycling, Singing and Sand Play are all included in our timetable.*



## Trips

Children will have extensive opportunities to enjoy visits that will support their learning.

- Local parks
- A visit to see Santa
- Wiggleys Farm
- Margam Park

## Sport, P.E. and Outdoor Learning

We host a variety of sporting teams and clubs that support and encourage our children to live healthy, balanced lifestyles.

## Clubs

In the future, we will hold a variety of clubs and sporting teams which will support and encourage our children to live healthy and balanced lives.







# Derbyniadau...
# a chymryd rhan

## Trefniadau derbyn

Yn ôl y gyfraith rhaid i blant ddechrau addysg statudol amser llawn o ddechrau'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn bump oed. Gall plant ddechrau'r ysgol ym mis Medi'r flwyddyn academaidd pan fyddant yn bump oed. Mae angen i bob cais am dderbyniadau ysgolion gael ei wneud trwy Awdurdod Lleol Castell-nedd Port Talbot.

**Proses ymgeisio**

- Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ar gyfer Medi yw canol Ionawr y flwyddyn honno.
- Byddwch yn cael gwybod am leoliad eich plentyn erbyn y mis Ebrill canlynol.
- Mae croeso i chi ymuno â ni ar gyfer ein diwrnodau agored neu i drefnu apwyntiad i ymweld â'r ysgol.
- Rydym yn cynnal sesiynau blasu i blant sydd am ymuno â ni.

**Manylion cyswllt ar gyfer Tîm Derbyniadau Disgyblion Cyngor Castell-nedd Port Talbot**

- Swyddfa Derbyniadau Ysgolion, Canolfan Ddinesig, Port Talbot, SA13 1PJ.
- **Ffôn:** 01639 686868
- **E-bost:** admissions@nptcgroup.ac.uk.
- **Gwe:** www.npt.gov.uk

## Cymryd rhan

**Gwersi Cymraeg i Oedolion**

Rydym yn cynnal 'Caffi Cymraeg' cyfeillgar a chroesawgar bob dydd Gwener. Mae'n agored i oedolion sy'n rhan o'n cymuned sydd â diddordeb mewn dysgu Cymraeg. Mae'n amgylchedd dysgu hamddenol ac wrth gwrs gallwch ddod i fwynhau paned!

**Gweithio'n agos â'n cymuned**

Mae sesiynau 'Aros a Chwarae' i rieni gyda babanod a phlant bach ac rydym yn bwriadu cynnig tylino babanod, grwpiau cymorth rhianta a chyfleoedd i ddysgu am fanteision dwyieithrwydd.

# Admissions...
# and getting involved

## Admissions arrangements

By law children must start statutory education full time from the beginning of the term following their fifth birthday. Children may start school in the September of theacademic year in which they are five. All school admissions need to be made through Neath Port Talbot Local Authority.

**Application process**

- The closing date for September applications is in mid January of that year.
- You will be notified of your child's placement by the following April.
- You are more than welcome to join us for our open days or to book an appointment to visit school.
- We host taster sessions for children looking to join us.

**Contact details for the Neath Port Talbot Council Pupil Admissions Team**

- School Admission Office, Civic Centre, Port Talbot, SA13 1PJ.
- Tel: 01639 686868
- Email: admissions@npt.gov.uk
- Web:www.npt.gov.uk

## Getting involved

**Welsh Lessons for Adults**

We host a friendly and welcoming 'Caffi Cymraeg' every Friday. It's open to adults who are part of our community who have an interest in learning Welsh. It's a relaxed learning environment and of course you can come and enjoy a cuppa!

**Working closely with our community**

There are 'Stay and Play' sessions for parents with babies and toddlers and we are looking to offer baby massage, parenting support groups and opportunities to learn about the benefits of bilingualism.

**Ysgol Gynradd Gymraeg Tregeles**, Teras Sant Ioan, Mynachlog-nedd, Castell-nedd, SA10 7ND
**Ffôn:** 01792 966655
**E-bost:** swyddfa@yggtregeles.npt.school
**Gwe:** https://ygg-tregeles.j2bloggy.com/

**YGG Tregeles**, St Johns Terrace, Neath Abbey, Neath, SA10 7ND
**Tel:** 01792 966655
**Email:** swyddfa@yggtregeles.npt.school
**Web:** https://ygg-tregeles.j2bloggy.com

Teulu hapus a charedig — Ysgol Gymraeg Tregeles

Devised and produced by Stoneworks Education Ltd www.stoneworkseducation.co.uk
© Stoneworks Education Limited 2014-2023. All rights reserved.